

Eitemau yn yr Ocsiwn yn Ffair y Gymdeithas yn y Bala ar 18 Medi am 2.00 o'r gloch

1. The Teeth / Y Dannedd, *Mr Scott* – 1864 (llyfryn prin iawn a werthwyd yn Sutheby's yn ddiweddar).
2. Welsh Botany, *Hugh Davies* 1813 (Rhwyddiad hardd iawn).
3. 'Gregynog Festival of Music and Poetry' 1937 (Harrop E191).
4. 'Order of Service – The Burge Memorial Trust' – 1930 (Harrop E61).
5. Prospectus 'Euripides' – 1931 (Harrop E74).
6. Prospectus 'Comus' – 1931 (Harrop E75).
7. Performance of Bach's St Mathew Passion – 1923 (Harrop E8).
8. Order of Service in Memory of Thomas Jones – 1955 (Heb fod yn Harrop).
9. Gregynog Festival – 1956 (Heb fod yn Harrop).
10. The Guild of Graduates 1894–1969 (*anfonwyd i'r Arglwydd Morris oddi wrth T.J. Ellis*).
11. English Idioms From the Law: Y Gwir Anrhydeddus Sir Jocelyn Simon (*Cyfarchiad a llofnod yr awdur a anfonwyd yn wreiddiol at yr Arglwydd Morris o Forth-y-Gest ynghyd â chopi teip (heb ei arwyddo) o lythyr a anfonodd yr Arglwydd Morris i ddiolch am y rhodd*).
12. Y Delfryd Arwrol yn yr hen Ganu, *A. O. Jarman* (*Copi o'r ddarlith ynghyd â lythyr a anfonwyd at yr Arglwydd Morris gan yr Athro A. O. H. Jarman*).
13. Lloffion (1942), *T.H. Parry-Williams*, copi *D. Gwenallt Jones*, gyda'i enw 'Gwenallt' ar y dudalen flaen a thudalen o nodiadau yn llaw *Gwenallt*.
14. Ysgrifau (1928), *T.H. Parry-Williams*, copi *D. Gwenallt Jones*, gyda'r enw 'Gwenallt' ar y dudalen flaen ynghyd ag adolygiad allan o bapur newydd gan *Saunders Lewis*.
15. Canlyn Arthur (1938) *Saunders Lewis*, gyda llofnod yr awdur wedi ei bastio ar y dudalen flaen.
16. Caniadau Cymru (*mdcccxxvii, Jarvis & Foster*), rhwyddiad gwyn, ac ar y dudalen flaen y geiriau: 'From John Cowper Powys to Huw Menai August 1956' (yn llaw *JCP*), 'From Gerard Casey to Glyn Jones 1976' (yn llaw *GJ*); 'From Glyn to Meic' (yn llaw *GJ*); 'Property of Meic Stephens June 1986 – Glyn Jones' (yn llaw *GJ*) ynghyd â cherdd yn *Saesneg*, 'Marwnad William Williams' gan 'Ioan Powys' (fef *JCP*) allan o'r *Adsain* (papur *Corwen*).
17. An Acre of land (d.d.1952), *R. S. Thomas*; gyda'r geiriau 'Gwenallt oddi wrth R. S. Thomas 1952' ar y dudalen flaen yn llaw *RST*; copi glân ac unigryw.

Effermera o hen Wasg Gregynog

3. 'Gregynog Festival of Music and Poetry' 1937 (Harrop E191).
4. 'Order of Service – The Burge Memorial Trust' – 1930 (Harrop E61).
5. Prospectus 'Euripides' – 1931 (Harrop E74).
6. Prospectus 'Comus' – 1931 (Harrop E75).
7. Performance of Bach's St Mathew Passion – 1923 (Harrop E8).
8. Order of Service in Memory of Thomas Jones – 1955 (Heb fod yn Harrop).
9. Gregynog Festival – 1956 (Heb fod yn Harrop).
10. The Guild of Graduates 1894–1969 (*anfonwyd i'r Arglwydd Morris oddi wrth T.J. Ellis*).
11. English Idioms From the Law: Y Gwir Anrhydeddus Sir Jocelyn Simon (*Cyfarchiad a llofnod yr awdur a anfonwyd yn wreiddiol at yr Arglwydd Morris o Forth-y-Gest ynghyd â chopi teip (heb ei arwyddo) o lythyr a anfonodd yr Arglwydd Morris i ddiolch am y rhodd*).

Llyfrau Prin y Bala

(Parhad o dudalen 22)

phrifathro ysgol Lewis, Pengam. Nodir enwau prynwyr eraill fel F.C., G.E. ac E.J.O a.y.y.b.

Pan gaewyd y catalog yr oedd y gwerthiant yn £171/7/3 (yn cynnwys y £105 am *Kynniver Llith*). Tybed a oedd hynny'n ddigon i brynu tŷ i Mrs Evans a'i merch a Kyffin? Yr oedd gwerth £61/1/3 yn aros heb eu gwerthu, yn cynnwys *Cant o Ganeuon Ceiriog*; *Arithmetic neu Rifydddeg John Roberts* (1796); gweithiau gan Thomas Jones, Creaton (oedd yn gyfaill mawr i'r teulu Richards); llyfr gan T.G. Cumming am adeiladwaith pontydd Menai a Chonwy (1824); H. Hughes, *The Beauties of Cambria* (1823); Samuel Lewis, *A Topographical Dictionary of Wales* (1833); Angharad Llwyd, *A History of the Island of Mona* (1883); Thomas Pennant, *British Zoology* (4 cyfrol mewn lledr llo cain); Iolo Morgannwg, *Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain a'r Iolo Manuscripts*.

Dirgelwch Kynniver Llith a Ban

Un gair pellach am *Kynniver Llith a Ban*. Pan aeth John Fisher, Canghellor Eglwys Llanelwy, ati i baratoi argraffiad safonol, dim ond pedwar copi o'r gyfrol wreiddiol oedd yn hysbys – copi perffaith y Llyfrgell Genedlaethol, y copi cyflawn ym meddiant Evan Davies Jones, copi anghyflawn coleg y Bala (sydd yn awr yn llyfrgell coleg Bangor) a'i gopi anghyflawn ef ei hun. Holais beth ddigwyddodd i gopi Syr Evan Davies Jones a chlywais gan Cledwyn Fychan yn y Llyfrgell Genedlaethol, rai blynyddoedd yn ôl bellach, fod ei lyfrgell wedi ei gwerthu mewn arwerthiant gan Sotheby, ar Orffennaf 17-19, 1939, ac fod y gyfrol wedi ei phrynu am £68 gan fasnachwr o Pall Mall – pris gorau diwrnod olaf yr arwerthiant. Dywed John Fisher yn ei gyfrol (*Caerdydd* 1931) fod y copi hwn wedi bod ym meddiant Henry Parry,

Llanasa oddeutu 1802, ac iddo ddod yn eiddo i David Richards (Dewi Silin) tua 1816. Cafodd ei gadw yn ddiogel gan y teulu hyd 1915. Beth tybed ddigwyddodd iddo wedi 1939? Ei werthu i gasglwr preifat neu lyfrgell efallai, neu hwyrach ddiplannu i'r fflamau yng nghyrchoedd awyr yr ail rhyfel byd. A oes unrhyw un a wŷr?

Diwedd y stori

Wedi marw Mrs Evans aeth yr hyn oedd yn weddill o eiddo Kyffin i ddwylo Margaret ei merch, Mrs Norrie erbyn hyn. Pan fu Margaret hithau farw oddeutu 1960 aeth fy nhad i weld a oedd rhywbeth ar ôl. Yr oedd Captain Norrie yn ddigon parod i werthu bwrdd crwn a chist dderw, a ddaethant, mae'n bur debyg, o Fryntanat. Trosglwyddwyd i mi y trysor pennaf, er nad oeddwn yn sylweddoli hynny ar y pryd, sef boc o luniau a dynnwyd gan ŵr o'r enw Marpole ar yr 17eg o Fawrth 1857 yn Rheithordy Meifod. Dyddiau cynnar ffotograffiaeth oedd y rhain, ac mae'r lluniau, sydd bellach yng ngofal y Llyfrgell Genedlaethol, yn haeddu erthygl arall.

Diolchiadau

Yr wyf yn hynod o ddiolchgar i Mari Ellis, Aberystwyth, am ei chymorth wrth baratoi'r ysgrif hon. Bu cyfrol T.I. Ellis ar John Humphreys Davies 1871–1926 (1963) hefyd yn gymorth mawr, a phleser fu darllen darlith yr Athro Sioned Davies ar Mair Richards, a draddodwyd yn Eisteddfod Meifod, 2003. Wedi cyhoeddi'r ysgrif hon bwriadaf gyflwyno'r catalog i Lyfrgell Coleg Bangor.

Marw Aelod

Dymuna Nia Henson gyfrannu £100 i'r Gymdeithas er cof am ei phriod, Mr Tudor Henson, a fu farw yn ddiweddar.

Siop Lyfrau'r Hen Bost

45 Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog
Ffôn (01766) 831802

Byddwn yn yr Eisteddfod
yng Nghasnewydd

Edrychwn ymlaen at groesawu
cyfeillion hen a newydd

Ar Werth

1. The Transactions of the Radnorshire Society, 1966–68; 1973–76; 1978–80: £2 y gyfrol;
2. Transactions of the Liverpool Welsh National Society, 1886–87, 1890–91, 1891–92, 1892–93, 1893–94, 1896–97: £2 y gyfrol;
3. Yr Arloeswr rhif 1 1957–8–9, 1960, Golygyddion R. Gerallt Jones a Bedwyr L. Jones, 8 rhifyn: £1 yr un;
4. Briwsion Y Ford Gron, Rhif 1 1895, Rhif 4 1898;
5. Cymdeithas Cymry Caer: £1 y gyfrol.

Ymfofner â Mrs Mari Ellis ar (019706) 17171

Yn Eisiau

S. M. Roberts (Mrs John Roberts), Khasi Folklore. Herbert M. Vaughan, The Church in Wales, a brief historical sketch in four essays, rhif 2 (yn unig). Cysyllter â 01970 623577

A Liverpool Welsh Family gan J.Glyn Davies
Cysyllter ar 01678 540652

I'w Ffeirio

Ceisias gopiau o'r canlynol:

Bro (Mudiad Adfer) 1; Sgrech 16, 17
Almanac Caergybi 1927

Yn gyfnewid amdanynt, cynigiau rai o'r canlynol:

Sŵn 1–3, 5; Mela 1; Medel 1
Sothach 1, 2; Curid 1; Sgrech 24
Dracht 1, 2; Sboncyn 1; Pais 1
Steddfta 1–3; Llafar Gwlad 1
Y Gwyddonydd 1–4; Golwg 1
Cen ar y Pen 1; Dan Haul 1
Fferm a Thyddyn 1–2

Cysyllter ar (01248) 351503
e-bost hhuws@unionfred.fsnet.co.uk

Rhoddion

Ifor ac Enid Baines, Penygroes £2
R. M. Jones, Dinbych £40
Mr a Mrs Dafydd Morris, Bethesda £30
W. R. Williams, Caergybi £2.50
Vivian Harris, Nottingham £5
Iolo a Meinir Roberts, Newcastle £10
Y Parch a Mrs W. J. Edwards, Aberystwyth £20
Elfed ac E. R. Owen, Essex £3
Ken Owen, Marian-glas £5
Gwilym Jones, Tudweiliog £40
Nia Henson, Aberystwyth £100

CYMDEITHAS BOB OWEN

Y DDARLITH FLYNYDDOL

ar Faes Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd
Yn y Stiwdio ar dydd Mawrth 3 Awst
am 11.00 o'r gloch

Darlithydd: **Paul Joyner**

Cadeirydd: Dr Rhidian Griffiths

Testun:

- Casgliadau Casnewydd -
Sylwadau ar rai agweddau o gelf yr ardal,
gyda chyfeiriadau at Wenynen Gwent a
J. F. Mullock ymhlith eraill.

CYFARFOD BLYNYDDOL
BYR I DDILYN